REES, Syr JAMES FREDERICK (1883 - 1967), Prifathro Coleg Prifysgol Deheudir Cymru

Enw: James Frederick Rees
Dyddiad geni: 1883
Dyddiad marw: 1967
Priod: Dora Rose Lucile Rees (née Davies)
Rhiant: John Rees
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: Prifathro Coleg Prifysgol Deheudir Cymru
Maes gweithgaredd: Addysg
Awdur: Evan David Jones

Ganwyd 13 Rhagfyr 1883 yn fab i John Rees, Priory Hill a Hakin wedi hynny, Aberdaugleddau, Penfro, gweithiwr yn y dociau. Addysgwyd ef yn yr ysgol fwrdd cyn cael ysgoloriaeth i fynd i'r ysgol ganol leol ar 24 Ionawr 1898, ac i Goleg y Brifysgol yng Nghaerdydd yn 1901, lle y graddiodd gyda Dosbarth I mewn Hanes yn 1904. Yn 1908 cafodd Ddosbarth I yn ysgol Hanes Modern, Rhydychen. Bu'n ddarlithydd cynorthwyol mewn Hanes yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor, 1908-12, darlithydd ym Mhrifysgol Belfast am ychydig ac wedyn yn Ddarllenydd mewn Hanes Economaidd ym Mhrifysgol Caeredin, 1913-25. Cafodd Gadair Masnach (Commerce) ym Mhrifysgol Birmingham yn 1925 ac yno y bu nes ei ethol yn Brifathro Coleg y Brifysgol yng Nghaerdydd yn 1929, swydd a ddaliodd am 20 mlynedd. Bu'n is-ganghellor Prifysgol Cymru ddwywaith, 1935-37 ac 1944-46, ac yn warden Urdd y Graddedigion, 1950-53. Wedi ymddeol yn 1949 aeth yn Athro ymweliadol mewn Economeg i Brifysgol Ceylon, 1953-54 a bu'n bennaeth adran Hanes Economaidd ym Mhrifysgol Caeredin, 1956-58.

Gwasanaethodd ar nifer helaeth o bwyllgorau diwydiannol a chyfansoddiadol, gan amlygu doethineb, dealltwriaeth ac egni anghyffredin. Ef oedd cadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol ar Broblemau Adfer (Reconstruction) yng Nghymru, 1942-46, a bu'n aelod o'r comisiwn ar Ddiwygio'r Cyfansoddiad yn Ceylon, 1944-45. Gwasanaethodd ar Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol, 1946-49. Derbyniodd LL.D. er anrhydedd gan Brifysgolion Cymru, Birmingham a Chaeredin, a'i urddo'n farchog yn 1945 pan oedd yn Ceylon. Bu'n siryf ei sir enedigol yn 1955 ac yn llywydd Cymdeithas Hynafiaethau Cymru, 1956-57.

Yr oedd yn awdur nifer o gyfrolau megis *A social and industrial history of England, 1815-1918* (1920), *A short fiscal and financial history of England, 1815-1918* (1921), *Studies in Welsh history* (1947); *The story of Milford* (1954), *The problem of Wales and other essays* (1963); a golygodd *A survey of economic development with special reference to Great Britain* (1933), a *The Cardiff region: a survey* (1960). Ceir erthyglau ganddo mewn cyfnodolion cymdeithasau hanes, gwyddoniaduron, *Cambridge history of the British Empire* a'r *Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940*. Cyhoeddwyd amryw o'i anerchiadau, yn eu plith *The dominion of Ceylon* (1949) a darlith flynyddol y B.B.C. yng Nghymru a draddododd ar *Welsh nationality and historians* (1951).

Priododd yn 1913 â Dora Rose Lucile, merch Gethin Davies, prifathro Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd, a bu iddynt un mab. Bu farw 7 Ionawr 1967 yn ei gartref yn 11 Celyn Grove, Cyncoed, Caerdydd.

Awdur

Evan David Jones, (1903 - 1987)

Ffynonellau

Who was who?

gwybodaeth gan archifydd Hwlffordd

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734186

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu